



Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Roedd canfyddiadau'r arolygiadau o fewn y bwrdd iechyd yn gadarnhaol ar y cyfan. Lle bu angen gwella, mae pob gwasanaeth wedi ymateb yn adeiladol a bu'r ymgysylltiad gan arweinwyr y bwrdd iechyd yn gadarnhaol hefyd.

Mae'r broses o ail-arolygu gwasanaethau gan AGIC wedi datgelu gwelliant mewn sawl maes ac mae'n amlwg bod y bwrdd iechyd o'r farn bod craffu mewnol ac allanol yn ffordd gadarnhaol o ddysgu a gwella.

Mae angen gwneud rhagor o waith mewn meddygfeydd a rhai ysbytai er mwyn sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o sut y gallant godi pryder am y gofal maent yn ei gael.

Datgelodd arolygiad AGIC o uned asesu ac achosion brys yr Ysbyty Athrofaol nifer o faterion a oedd yn effeithio ar ddiogelwch ac urddas cleifion. Rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrar ei asesiad ei hun o'r trefniadau a oedd ar waith cyn arolygiad AGIC a pham na chymerwyd mwy o gamau mewn perthynas â materion roedd yn ymwybodol ohonynt.

Ysbytai

Gwnaethom gynnal dau arolygiad o Ysbyty Dewi Sant ac Ysbyty Athrofaol Cymru

- | | |
|---|---|
| <ul style="list-style-type: none"> ✓ Cafwyd canfyddiadau cadarnhaol ar y cyfan mewn perthynas â'n harolygiad dilynol o Ysbyty Dewi Sant, gyda chamau wedi'u cymryd mewn perthynas â chanfyddiadau blaenorol ✓ Cafwyd nifer o ganfyddiadau cadarnhaol yn ymwneud â'n harolygiad o'r unedau asesu meddygol ac achosion brys yn Ysbyty Athrofaol Cymru. ✓ Roedd hyfforddiant a'r rhaglen sefydlu i'w gweld yn wych ✓ Gwnaethom hefyd weld rhyngweithio gwyth rhwng staff a chleifion yn yr unedau asesu ac achosion brys, a dull caredig a thosturiol o ymdrin â phob claf | <ul style="list-style-type: none"> ✗ Nifer o faterion diogelwch cleifion uniongyrchol yn dilyn ein harolygiad o'r unedau asesu meddygol ac achosion brys yn Ysbyty Athrofaol Cymru ✗ Trefniadau annigonol i drin a monitro cleifion yn yr uned asesu a methiant i archwilio cyfarpar dadebru a meddyginiaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod modd eu defnyddio'n ddiogel mewn argyfwng ✗ Mae angen gwneud rhagor o waith o ran rhoi meddyginiaeth yn ddiogel (Dewi Sant) ✗ Mae lle i gynnwys gweithwyr cymdeithasol a therapyddion iaith a lleferydd a galwedigaethol yn fwy (Dewi Sant) |
|---|---|

Lechyd Meddwl

Gwnaethom gynnal un arolygiad o uned iechyd meddwl Hafan y Coed yn Ysbyty Llandochoau

- | | |
|---|---|
| <ul style="list-style-type: none"> ✓ Roedd archwiliadau adolygiadau cymheiriaid yn cael eu cynnal â staff o rannau eraill o'r ysbyty er mwyn nodi ansawdd y gofal fel ffordd o wella safonau a rhannu arfer da ✓ Roedd adolygwyr cymheiriaid AGIC yn llawn edmygedd o'r asesiadau cynhwysfawr o anghenion a gynhaliwyd er mwyn datblygu cynlluniau gofal a thriniaeth cleifion ✓ Roedd archwiliadau iechyd a diogelwch, gan gynnwys archwiliadau o bwyntiau clymu, yn drylwyr ac yn gyfredol | <ul style="list-style-type: none"> ✗ Er bod gan y bwrdd iechyd drefniadau effeithiol i reoli'r risg sy'n gysylltiedig â 'chleifion yn cysgu allan' o'r uned, ymddengys fod hyn yn beth cyffredin ✗ Mae ardaloedd yr ardd yn uned iechyd meddwl Hafan y Coed yn frwnt ac yn anniben. Roedd yr uned yn dibynnu ar y staff i lanhau a chynnal a chadw'r ardaloedd hyn, ond nid oedd ganddynt fawr ddim amser i wneud hynny. Fel yr unig ardal awyr agored sydd ar gael i gleifion yr uned, mae cyflwr y cyfleusterau hyn yn cael effaith sylweddol ar eu profiad |
|---|---|

Meddygfeydd

Gwnaethom arolygu tair meddygfa eleni

- | | |
|--|---|
| <ul style="list-style-type: none"> ✓ Ar y cyfan roedd y cleifion yn gadarnhaol ynghylch eu profiad ac mewn dwy o'r tair meddygfa a arolygwyd nodwyd ei bod hi'n hawdd iddynt wneud apwyntiadau ✓ Cafwyd rhai enghreifftiau o waith clwstwr da, gan gynnwys cynllun peilot y tu allan i oriau ✓ Roedd pob meddygfa yn lân ac mewn cyflwr da ✓ Ystyriwyd bod pob un ohonynt yn ddiogel ac yn effeithiol, er bod angen gwneud gwelliannau mewn dwy er mwyn cyrraedd y safonau iechyd a gofal yn llawn ✓ Roedd y meddygfeydd yn cael eu harwain yn dda yn gyffredinol | <ul style="list-style-type: none"> ✗ Cafodd llythyr sicrwydd uniongyrchol ei gyflwyno mewn un feddygfa am fod problemau o ran cofnodi tymereddau'r oergell cyffuriau ✗ Roedd angen gwneud amrywiaeth o welliannau o ran gweithredu Gweithio i Wella, gan gynnwys gwella'r broses o gofnodi cwynion a darparu gwybodaeth i gleifion (pob arolygiad) ✗ Lle i wella ansawdd cadw cofnodion, gan gynnwys cysondeb o ran cofnodi'r rhesymau dros ragnodi neu ddiagnosis sylweddol (mewn dwy feddygfa) |
|--|---|

Deintyddfeydd

Gwnaethom arolygu 11 o ddeintyddfeydd

- | | |
|---|---|
| <ul style="list-style-type: none"> ✓ Roedd y cleifion yn fodlon ar eu gofal ym mhob arolygiad ✓ Roedd safon cadw cofnodion yn uchel neu'n dda mewn 7 o'r 11 o arolygiadau a gwblhawyd ✓ Nodwyd systemau arwain a rheoli cadarnhaol yn y rhan fwyaf o arolygiadau ✓ Roedd gan y rhan fwyaf o ddeintyddfeydd drefniadau priodol ar gyfer defnyddio pelydr-x ✓ Yn gyffredinol, roedd deintyddfeydd yn lân a phrin oedd y mân faterion amgylcheddol a godai i'w datrys | <ul style="list-style-type: none"> ✗ Problemau o ran amllder archwiliadau, storio neu leoli cyfarpar brys mewn chwe arolygiad ✗ Dylai nifer o ddeintyddfeydd gynnal mwy o weithgareddau archwilio a gwella ansawdd. |
|---|---|

Timau Iechyd Meddwl Cymunedol

Gwnaethom arolygu Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Gorllewin y Fro yn y Barri

- | | |
|--|--|
| <ul style="list-style-type: none"> ✓ Roedd gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu gydag adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr, gwell mynediad ac amseroldeb ✓ Safonau uchel cyson o ran cadw cofnodion yn y TIMC, gan gynnwys dogfennaeth y Ddeddf Iechyd Meddwl (Cymru) ✓ Dull da ac amlddisgyblaethol o gynnal asesiadau o ddefnyddwyr gwasanaeth, cynllunio gofal a chynnal adolygiadau | <ul style="list-style-type: none"> ✗ Roedd y gwasanaeth TIMC yn newid yn sylweddol a oedd yn effeithio ar brosesau, gweithdrefnau, cyfarfodydd a strwythurau rheoli. ✗ Effeithiwyd ar forâl y staff oherwydd hyn ac roedd angen i'r trefniadau hyn gael eu hegluro |
|--|--|